



Cyfarfod: Y Cyd-bwyllgor Archwilio

Lleoliad: Teams

Dyddiad: 28 Gorffennaf 2026

2pm i 5pm

<u>Aelodau:</u>	Ms Kate Curran (KC) Cadeirydd Mr David Macgregor (DM) Ms Julie James (JJ) Ms Caroline Wheeler (CW)
<u>Yn bresennol yn y Cyd-bwyllgor Archwilio</u>	Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) Ms Carys Morgans, Prif Swyddog Gweithredol (CM) Ms Nicola Davies, Prif Swyddog Cyllid (ND) Mr Jason Blewitt, Archwilio Cymru (JB) Ms Michelle Reynolds, Pennaeth Cyllid Dros Dro (MR) Mr Steve Cadenne, Pennaeth Cyflenwi Gwasanaethau Adnoddau Dynol (SC) Mr Marc Jones, Pennaeth TGCh (MJ) Mr Jonathon Maddock, TIAA (JM) Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (EH) Ms Liz Reed, Rheolwr y Cylch Cynllunio a Sicrwydd (LR) Mr Richard Janas, Arolygydd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi (RJ) Mr John Carrol, Uwch-arolygydd yr Uned Gwella Gwasanaethau (JC) Miss Ellen Jones, Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
<u>Ymddiheuriadau</u>	Mr Ifan Charles, Prif Gwnstabl Mr Gary Phillips, Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Mr Farhan Shakoar, Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio (FS) Ms Gaynor Maddox, Pennaeth Rhaglenni a Newid
<u>Datganiadau o fuddiant:</u>	Dim

1. Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2026

Ystyriwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2026 yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd, yn amodol ar rai mân newidiadau i lythrennau cyntaf siaradwr.

2. Adolygiad o gamau gweithredu heb eu cwblhau

Rhif y cam gweithredu	Crynodeb o'r cam gweithredu	I'w ddatblygu gan	Cynnydd
CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 28 IONAWR 2026			
A 31	Bod y pwyllgor yn cael ei wahodd i arsylwi ymarfer profi parhad busnes yn y dyfodol.	GM	Ar y gweill – Mae staff yn ôl-lenwi swydd wag y Swyddog Parhad Busnes dros dro. Lansiwyd y broses parhad busnes newydd yr wythnos yn dechrau 1 Mehefin, ac mae'r profion bwrdd gwaith bellach i fod i ddechrau ddiwedd Gorffennaf/Awst. Unwaith y bydd y camau cychwynnol wedi'u cwblhau a'r ymarferion profi cyflym yn dechrau, anfonir gwahoddiadau i'r Cyd-bwyllgor Archwilio gymryd rhan. Yn ogystal, roedd yr archwiliad TIAA a gynlluniwyd ar gyfer y maes hwn wedi'i symud i fis Hydref i ganiatáu digon o amser i weithredu'r prosesau newydd yn llawn.
A35	Aelodau'r pwyllgor i brofi mynediad gwestai sianel Teams y Cyd-bwyllgor Archwilio.	SCHTh	Ar y gweill – gwirfoddolodd dau aelod ac mae mynediad gwestai wedi'i ganiatáu ar eu dyfeisiau. Rhoddodd yr aelodau eu hadborth ar y broses bresennol, gan nodi y byddai'n cael ei gwella oherwydd anawsterau technegol. Dilynodd trafodaeth ynghylch pwysigrwydd y sianel a'r buddion i gyfarfodydd ehangach yr heddlu y mae aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn eu mynychu. Cytunwyd y bydd CM yn trafod hyn ymhellach â TGCh.

CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 31 MAWRTH 2026

A 36	Cynnal adolygiad pellach i ganfod a oes rheolaethau digonol ar waith pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud i oriau gwaith unigolyn gyda'r bwriad o osgoi gordaliadau.	SC	Ar y gweill – Mae'r Adran Gyflogres yn cynnal adolygiad, a bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ar 29 Medi.
A 38	Trefnu cyfarfod ychwanegol o'r pwyllgor ar gyfer mis Rhagfyr.	SCHTh	Wedi'i gwblhau – Wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun 14 Rhagfyr.
A 39	Bydd SCHTh yn cysylltu â'r Prif Swyddog Gweithredol i ganfod yr hyn sy'n ofynnol o'r datganiad sydd wedi'i gynnwys yn y cylch gorchwyl, sef "Adolygu'r trefniadau llywodraethiant a sicrwydd ar gyfer partneriaethau neu gydweithrediadau arwyddocaol", ac yn rhoi adborth i'r pwyllgor.	SCHTh	Ar y gweill – Yn dilyn gwybodaeth a ddarparwyd gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent ynghylch bwrdd goruchwyllo cydweithio Cymru gyfan, cytunwyd bod angen eglurder pellach ynghylch rôl y pwyllgor. Cytunwyd y bydd CM yn trafod â swyddfeydd comisiynwyr heddlu a throseddu Cymru ac y bydd trafodaethau pellach i'w cynnal yn ystod y diwrnod hyfforddi Cymru gyfan ar gyfer cyd-bwyllgorau archwilio.
A 42	MM i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio am drefniadau ymgysylltu partneriaeth y Fforwm Gwydnwch Lleol.	MM / ACC	Wedi'i gwblhau – Cofnodion y cyfarfod diweddaraf i'w dosbarthu i'r aelodau. Gofynnwyd cwestiynau pellach gan aelodau, sef: A yw'r Fforwm Gwydnwch Lleol hwn erioed wedi cael ei archwilio? Pwy sy'n monitro cynlluniau gweithredu? Ac i ba un o'r byrddau y mae'n adrodd? Roedd aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn fodlon y gellid delio â'r ymholiad hwn y tu allan i'r cyfarfod drwy CM.
A 47	Cynnal adolygiad o sgoriau cofrestr risg yr heddlu.	LR / DC	Wedi'i gwblhau – Yn dilyn eglurder gan yr heddlu, cadarnhawyd mai dim ond y pedwar 'T', sef terfynu, trin, trosglwyddo, goddef (<i>terminate, treat, transfer, tolerate</i>), y mae'r heddlu'n

			eu defnyddio ar gyfer rheoli risgiau corfforaethol ac adrannol (lleol).
CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23 MEHEFIN 2026			
A 49	Cynnal adolygiad pellach mewn perthynas â'r archwiliad o seilwaith TGCh, gan gynnwys ystyried y Memorandwm Cynllunio Archwilio ac asesiad o sut yr ymgymeryd ag ef yn erbyn ei gwmpas bwriadedig.	TIAA	Wedi'i gwblhau – Adroddiad diwygiedig ar yr agenda i'w drafod.
A 50	Rhoi eglurhad ar y meysydd a'r rheolaethau penodol a brofwyd fel rhan o'r archwiliad rheoli newid ym maes TGCh.	TIAA	Wedi'i gwblhau – Adroddiad diwygiedig ar yr agenda i'w drafod.
A 51	Bod rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu i'r pwyllgor i egluro natur, cwmpas a graddfa'r adolygiad a gynhaliwyd fel rhan o'r archwiliad TGCh yn ymwneud â seiberddiogelwch o dan y fframwaith asesu diogelwch ym maes plismona, a bod yr adroddiad archwilio yn cael ei ddiweddarau yn unol â hynny i fynegi cwmpas yr adolygiad a'r gwaith a wnaed yn llawn.	TIAA	Wedi'i gwblhau – Adroddiad diwygiedig ar yr agenda i'w drafod.
A 52	Bod y Prif Gwnstabl yn cyfarfod â'r Dirprwy Brif Gwnstabl i drafod trefniadau llywodraethu archwilio a sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnwys yn briodol o fewn cylch gwaith y Bwrdd Archwilio a Sicrwydd Strategol sydd newydd ei sefydlu.	CM	Wedi'i gwblhau – Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Archwilio a Sicrwydd Strategol gyda DM yn bresennol ar ran y pwyllgor. Er y nodwyd bod angen gwaith pellach mewn perthynas â'r cylch gorchwyl. Bydd y bwrdd yn datblygu hwn.

3. Cynllun gwaith y Cyd-bwyllgor Archwilio

Ystyriodd yr aelodau'r flaengynllun gwaith ar gyfer cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Archwilio. Awgrymwyd y dylid trefnu cyfarfod ychwanegol ar gyfer mis Ebrill 2027 i gynorthwyo gyda'r llwyth gwaith.

Cam Gweithredu A 53 – Trefnu cyfarfod ychwanegol o'r pwyllgor ar gyfer mis Ebrill 2027.

4. Adolygu materion llywodraethiant corfforaethol ac ystyried y fframwaith llywodraethiant corfforaethol

a. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol

Cafodd y pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyfarfod y Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2026, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Gwnstabl.

Hysbysodd EH yr aelodau fod y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo, a bod nifer o gamau gweithredu cysylltiedig wedi'u cymeradwyo. Nododd y bwrdd hefyd drefniadau arolygu HMICFRS a dywedwyd wrthynt fod y cyfrifon drafft wedi'u cyflwyno i Archwilio Cymru erbyn diwedd mis Mehefin yn unol â gofynion statudol a bod y broses archwilio yn parhau i fynd rhagddi.

Parhaodd EH i gynghori bod yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd wedi dod i law ar faterion yn ymwneud â'r Cyd-bwyllgor Archwilio, gweithgareddau archwilio TG, y Bwrdd Archwilio a Sicrwydd Strategol, a datblygiadau o ran polisi. Ystyriodd y bwrdd hefyd faterion llywodraethiant sy'n dod i'r amlwg a datblygiadau cenedlaethol sy'n berthnasol i blismona a llywodraethiant corfforaethol.

b. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Bwrdd Archwilio a Sicrwydd Strategol



Trafododd y pwyllgor gylch gorchwyl y Bwrdd Archwilio a Sicrwydd Strategol a'r trefniadau ar gyfer adrodd a goruchwyllo llywodraethiant.

Nododd yr aelodau fod gwelliannau i'r cylch gorchwyl wedi'u cynnig yn flaenorol a disgwylir fersiwn ddiwygiedig. Cytunwyd y dylid ymgorffori gwelliannau pellach, gan gynnwys sylwadau a godwyd yn y cyfarfod ac adborth yn ymwneud ag Archwilio Cymru.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch trefniadau adrodd gan y Bwrdd Archwilio a Sicrwydd Strategol. Nodwyd bod cyfrifoldebau'r bwrdd yn ehangach na chyfrifoldebau'r pwyllgor ac yn cynnwys materion y gallai fod angen adrodd arnynt drwy wahanol lwybrau llywodraethu.

Cododd yr aelodau bryderon hefyd ynghylch geiriad awdurdod gwneud penderfyniadau'r bwrdd o fewn y cylch gorchwyl, gan nodi nad oedd yn glir ac y dylai ddiffinio cwmpas awdurdod y bwrdd yn well.

Awgrymwyd, o ystyried ehangder agenda'r bwrdd, y gallai fod angen adrodd am wahanol elfennau o'i waith i wahanol gyrff llywodraethu er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei graffu arno a'i oruchwyllo'n effeithiol.

Cam Gweithredu A 54 – Bydd CM yn trafod trefniadau adrodd yn y dyfodol ar gyfer y Bwrdd Archwilio a Sicrwydd Strategol â'r Dirprwy Brif Gwnstabl ac yn sicrhau bod gwelliannau arfaethedig i'r cylch gorchwyl, gan gynnwys adborth Archwilio Cymru, yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen ddiwygiedig.

- c. Datganiad Llywodraethiant Blynyddol – Adolygiad o'r camau gweithredu

Rhoddodd LR yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu a ddeilliodd o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol blaenorol.

Nododd yr aelodau fod camau gweithredu 9.2, 9.5 a 9.6 wedi'u cwblhau a'u cyflawni eisoes. Adolygodd y pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf a chytunodd i gyflawni camau gweithredu 9.1, 9.3 a 9.4, gan nodi y byddai Cam Gweithredu 9.1 yn parhau i gael ei



fonitro trwy gam gweithredu cyfatebol o fewn Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol 2025/26.

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu sy'n weddill yn ymwneud â pharhad busnes a model gweithredu'r heddlu. Nododd yr aelodau fod cynnydd wedi'i wneud o ran trefniadau parhad busnes drwy adlinio adnoddau i gefnogi'r gwaith hwn. Fodd bynnag, roedd recriwtio ar gyfer swydd bwrpasol yn parhau i fod heb ei gwblhau yn dilyn ymarfer recriwtio aflwyddiannus, a byddai'r rôl yn cael ei hailhysbysebu fel swydd amser llawn. Nododd y pwyllgor hefyd y byddai archwiliad adfer ar ôl trychineb TGCh a'r archwiliad parhad busnes a gynlluniwyd yn cael eu halinio o fewn y rhaglen archwilio gyfredol. Croesawodd yr aelodau'r aliniad rhwng gweithgareddau archwilio adfer ar ôl trychineb TGCh a pharhad busnes a nodwyd y cynnydd cadarnhaol a wneir.

Mewn perthynas â model gweithredu'r heddlu, hysbysodd LR yr aelodau fod y rhaglen o werthusiadau wedi cychwyn, a bod sawl adolygiad eisoes wedi'u hadrodd amdanynt trwy'r strwythurau llywodraethu priodol a bod adroddiadau pellach wedi'u hamserlennu yn ystod y chwarter presennol.

Ystyriodd y pwyllgor gamau gweithredu newydd y Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol ar gyfer 2025/26 a nododd y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod perchnogion camau gweithredu yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn rheolaidd. Ni chododd yr aelodau unrhyw bryderon ynghylch y camau gweithredu arfaethedig, yn amodol ar gywiro gwall teipograffyddol bach yn yr adroddiad.

Cadarnhaodd y pwyllgor ei fod yn fodlon argymhell y Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol i'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

5. Ystyried adroddiadau ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a monitro gweithrediad y camau gweithredu y cytunwyd arnynt



a) Adroddiadau Archwilio Mewnol

1. Adroddiadau TGCh 2025/26 heb eu cwblhau

Ystyriodd y pwyllgor tri adroddiad Archwilio Mewnol TGCh oedd heb eu cwblhau a chafodd yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd ers y cyfarfod blaenorol.

Dywedodd KC fod sicrwydd ychwanegol wedi'i ddarparu yn dilyn adolygiad pellach o'r adroddiadau, gan gynnwys mewnbwn gan FS, nad oedd wedi gallu mynd i gyfarfod heddiw. Darparwyd dogfen i'r aelodau hefyd yn amlinellu gwelliannau a wnaed i'r adroddiadau yn dilyn y pryderon a godwyd yn y cyfarfod blaenorol.

Esboniodd MR, yn dilyn cyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor Archwilio, fod cynrychiolwyr o TGCh a TIAA wedi cyfarfod i gytuno ar y camau nesaf y mae angen eu cymryd. Rhannwyd adroddiadau drafft diwygiedig wedi hynny â rheolwyr TGCh i'w hadolygu, ac er mwyn iddynt roi adborth arnynt, cyn eu dychwelyd i TIAA i'w diwygio. Roedd adborth a ddarparwyd gan FS ar archwiliadau rheoli newid TGCh a seiberddiogelwch wedi'i ymgorffori yn yr adroddiadau diwygiedig.

Mewn perthynas â'r archwiliad seiberddiogelwch, nododd MR fod eglurhad wedi'i ddarparu ynghylch cwmpas yr adolygiad, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar reolaethau'r Cynllun Sicrwydd Integredig Strategol a ddewiswyd i'w profi yn hytrach na'r amgylchedd seiberddiogelwch ehangach.

O ran yr archwiliad o seilwaith TGCh, dywedodd MR fod adborth manwl wedi'i ddarparu gan y Pennaeth TGCh Dros Dro (MJ) a'i gefnogi gan FS. Roedd pryderon yn canolbwyntio ar ddibyniaeth yr archwiliad ar bolisiau a gweithdrefnau yn hytrach na phrofi effeithiolrwydd gweithredol a gweithrediad rheolaethau. Nododd yr aelodau fod sylwadau pellach wedi dod i law gan FS yn gynharach y bore hwnnw.



Cadarnhaodd MJ eu bod wedi cyfarfod â JM i drafod y canfyddiadau a chroesawodd y manylion ychwanegol a oedd wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiadau wedi hynny. Tynnodd MJ sylw at bwysigrwydd diffinio cwmpas yr archwiliad yn glir a sicrhau bod hyn yn cael ei ddeall gan bob parti o'r cychwyn cyntaf er mwyn osgoi camddealltwriaethau ynghylch pwrpas a chanlyniadau adolygiadau.

Nododd KC a MJ y gallai rhai o deitlau'r archwiliadau greu disgwyliadau bod yr adolygiadau'n cwmpasu meysydd ehangach nag a oedd wedi'u cynnwys o fewn y cwmpas. Cytunodd yr aelodau y dylai teitlau archwilio yn y dyfodol adlewyrchu ffocws penodol pob adolygiad yn fwy cywir er mwyn cefnogi eglurder a dealltwriaeth.

Dywedodd JM fod TIAA wedi adolygu'r holl sylwadau a ddaeth i law gan aelodau a chynrychiolwyr TGCh yn dilyn y cyfarfod blaenorol ac wedi diwygio'r tri adroddiad archwilio yn unol â hynny i ddarparu eglurder a sicrwydd ychwanegol.

i. Rheoli newid TGCh

Ystyriodd y pwyllgor yr adroddiad archwilio rheoli newid TGCh diwygiedig a chafodd ddiweddariad gan JM ar y gwelliannau a wnaed yn dilyn adborth gan aelodau a chynrychiolwyr TGCh.

Dywedodd JM nad oedd unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r farn sicrwydd gyffredinol na'r argymhellion, a oedd yn parhau i ddarparu sicrwydd rhesymol, gyda phedwar argymhelliad risg ganolig a phedwar argymhelliad risg isel. Roedd y prif welliannau'n ymwneud â darparu mwy o eglurder ynghylch cwmpas yr archwiliad. Roedd manylion ychwanegol wedi'u cynnwys yn y crynodeb gweithredol i amlinellu cwmpas lefel uchel a manwl yr adolygiad yn gliriach, gan gynnwys y meysydd penodol a archwiliwyd yn ystod profion archwilio.



Ychwanegwyd rhagor o fanylion at yr adroddiad hefyd i esbonio'n well y profion a gynhaliwyd a rhoi mwy o sicrwydd ynghylch canfyddiadau'r archwiliad.

Croesawodd DM y diwygiadau a wnaed i'r adroddiad a chadarnhaodd ei fod yn fodlon ar y farn sicrwydd rhesymol a'r argymhellion a gynigiwyd. Nododd fod gan bob un o'r wyth argymhelliad yr un swyddog cyfrifol a therfyn amser i'w gweithredu a cheisiodd sicrwydd y gellid cyflawni'r camau gweithredu o fewn yr amserlen honno.

Cadarnhaodd MJ fod yr argymhellion yn cynrychioli camau cyflym ymlaen i raddau helaeth a oedd eisoes yn y broses o gael eu gweithredu.

Nododd DM ymhellach fod yr adroddiad wedi tynnu sylw at wendidau blaenorol yn ymwneud â'r ddogfennaeth, llywodraethiant, a chamau dilynol y newidiadau TGCh, ond derbyniodd fod gwelliannau bellach wedi'u nodi a'u bod yn cael eu datblygu.

Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn fodlon ar y diwygiadau a wnaed i'r adroddiad a'r dull a gymerwyd mewn ymateb i'r adborth.

ii. Seilwaith TGCh

Ystyriodd y pwyllgor yr adroddiad archwilio seilwaith TGCh diwygiedig a chafodd yr wybodaeth ddiweddaraf gan JM ar y gwelliannau a wnaed yn dilyn adborth a gafwyd yn y cyfarfod blaenorol.

Dywedodd JM fod y farn sicrwydd gyffredinol wedi aros yr un fath ar sicrwydd sylweddol, er bod un argymhelliad blaenoriaeth isel ychwanegol wedi'i ychwanegu yn dilyn trafodaethau â rheolwyr TGCh. Fel sy'n wir am yr archwiliad rheoli newid, roedd yr adroddiad wedi'i ddiwygio i roi mwy o eglurder ynghylch cwmpas manwl yr archwiliad, y profion a



gynhaliwyd, a'r dystiolaeth a adolygwyd. Roedd naratif ychwanegol hefyd wedi'i ymgorffori yn dilyn trafodaethau ag MJ i gryfhau'r adroddiad a rhoi cyd-destun pellach ynghylch y canfyddiadau.

Cydnabu DM y gwelliannau a wnaed i'r adroddiad ond mynegodd amheuon ynghylch dyfarnu barn sicrwydd sylweddol gan ei fod yn cwestiynu a oedd y radd sicrwydd yn gyson â'r canfyddiadau a nodwyd ar draws yr adroddiadau archwilio TGCh cysylltiedig. Yn benodol, cyfeiriodd at sylwadau ynghylch trefniadau adolygu polisïau a meysydd eraill sydd angen eu gwella, a oedd yn ei farn ef yn adlewyrchu barn sicrwydd rhesymol yn well.

Mewn ymateb, nododd JM fod y farn sicrwydd wedi'i hystyried yn ofalus a'i bod yn parhau i fod yn briodol o ystyried nifer gyfyngedig yr argymhellion a ddeilliodd o'r adolygiad a'r ffaith bod yr argymhellion hynny â blaenoriaeth isel. Cadarnhaodd fod y farn wedi'i chymeradwyo drwy brosesau sicrhau ansawdd mewnol TIAA a'i chymeradwyo gan y cyfarwyddwr archwilio perthnasol.

Ategodd DM fod ei bryder yn ymwneud â'r cysondeb rhwng canfyddiadau ar draws y gyfres o archwiliadau TGCh yn hytrach na pherfformiad staff TGCh. Nododd fod rhai canfyddiadau wedi tynnu sylw at wendidau mewn dogfennaeth llywodraethiant a threfniadau adolygu polisïau, ac roedd o'r farn y dylid adlewyrchu hynny yn yr asesiad sicrwydd cyffredinol.

Cefnogodd CW elfennau o arsylwadau DM, gan dynnu sylw at bryderon nad oedd y polisi patsio wedi'i adolygu ers cyfnod sylweddol, a nododd ganfyddiadau yn ymwneud â phrofi wrth gefn yr amgylchedd cwmwl, yr oedd hi'n ei ystyried yn bwysig ar gyfer parhad a gwydnwch busnes.

Rhoddodd MJ sicrwydd fod trefniadau wrth gefn yn cael eu defnyddio'n weithredol a'u profi trwy



weithgareddau adfer gweithredol arferol. Er nad oedd adferiad llawn o'r amgylchedd cwmwl cyfan wedi'i wneud, cadarnhaodd fod data wrth gefn yn cael eu hadfer a'u gwirio'n rheolaidd pan fo angen, gan roi hyder o ran effeithiolrwydd y trefniadau.

Nododd EH, er bod angen diweddarau rhai polisïau, fod yr adroddiad archwilio yn dangos yn glir bod rheolaethau technegol allweddol yn gweithredu'n effeithiol. Cyfeiriodd at brofion a gynhaliwyd gan archwilyr, gan gynnwys adolygu sgrinluniau a thystiolaeth ategol sy'n dangos cydymffurfedd patsys a rheolaethau seilwaith eraill.

Yn dilyn trafodaeth, cydnabu'r aelodau'r gwahanol safbwyntiau ynghylch y radd sicrwydd ond gwnaethant dderbyn yr esboniad a ddarparwyd gan TIAA a'r sicrwydd a roddwyd gan reolwyr TGCh.

- iii. Seiberddiogelwch o dan fframwaith asesu diogelwch ym maes plismona (SyAP) TGCh

Ystyriodd y pwyllgor yr adroddiad archwilio seiberddiogelwch diwygiedig a chafodd yr wybodaeth ddiweddaraf gan JM ar y gwelliannau a wnaed yn dilyn adborth a gafwyd yn y cyfarfod blaenorol.

Dywedodd JM nad oedd unrhyw newidiadau wedi bod i'r farn sicrwydd gyffredinol nac i nifer yr argymhellion. Roedd gwelliannau wedi'u gwneud yn y crynodeb gweithredol i sicrhau bod y geiriad yn adlewyrchu cwmipas yr archwiliad yn fwy cywir. Roedd cyfeiriadau at sicrwydd seiberddiogelwch ehangach wedi'u diwygio i egluro bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar reolaethau dethol o fewn Fframwaith Gwella a Sicrwydd Seiberddiogelwch (CIAF) yn hytrach na threfniadau seiberddiogelwch gyffredinol y sefydliad.

Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn fodlon ar y gwelliannau a wnaed i'r adroddiad a'r dull a gymerwyd mewn ymateb i'r adborth.

b) Adroddiad cryno ar sicrwydd rheolaethau mewnol

Rhoddodd JM drosolwg o'r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol a rhannodd yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyflawni cynlluniau archwilio mewnol 2025/26 a 2026/27.

Adroddodd JM nad oedd unrhyw adroddiadau archwilio newydd wedi'u cwblhau ers y cyfarfod blaenorol, er bod yr Archwiliad Sicrwydd Risg cydweithredol, sy'n cwmpasu'r pedwar heddlu yng Nghymru, bellach wedi'i gyhoeddi ar ffurf ddrafft. Nododd yr aelodau hefyd fod yr argymhelliad Blaenoriaeth 1 heb ei gwblhau yn ymwneud â'r adolygiad diogelwch cydweithredol yn parhau i fod ar y gweill, a bod diweddariad pellach i'w ddarparu ar wahân.

Dywedodd JM fod yr holl archwiliadau o fewn Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26 bellach wedi'u cwblhau ac y gellid cwblhau'r Farn Archwilio Mewnol Flynyddol ar ôl cytuno ar yr adroddiadau archwilio TGCh diwygiedig. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd ar gyflawni Cynllun Archwilio Mewnol 2026/27, ac mae sawl adolygiad eisoes ar y gweill ac mae'r gweddill wedi'u hamserlennu i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn.

Nododd yr aelodau fod rhai adolygiadau, yn enwedig archwiliadau cydweithredol yn cynnwys pob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru, wedi'u gohirio ac y byddent bellach yn arwain at nifer fwy o adroddiadau archwilio yn cael eu cyflwyno yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Dywedodd JM fod trafodaethau'n parhau â'r heddlu i ddwyn ymlaen adolygiadau pan fo'n bosibl a nododd yr ymgysylltiad cadarnhaol gan MR ac ND wrth gefnogi cynllunio ac amserlennu mewn perthynas ag archwiliadau.

Er mwyn cynorthwyo aelodau i reoli'r nifer ddisgwyliedig o adroddiadau, awgrymodd JM y gellid dosbarthu adroddiadau archwilio wedi'u cwblhau i aelodau'r pwyllgor cyn cyfarfodydd ffurfiol, gan ddarparu amser ychwanegol i'w hadolygu a'u hystyried cyn eu trafod yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Archwilio.



Croesawodd KC yr awgrym, gan nodi'r buddion posibl o ystyried nifer yr adroddiadau a ddisgwylir rhwng cyfarfodydd mis Medi a mis Rhagfyr. Tynnodd sylw at y ffaith y byddai dosbarthu adroddiadau yn gynharach yn caniatáu mwy o amser i aelodau gael adolygu adroddiadau yn fanwl ac yn helpu i osgoi oedi wrth gwblhau archwiliadau pan fyddai cwestiynau pellach yn codi.

Cam Gweithredu A 55: Bydd TIAA yn dosbarthu adroddiadau archwilio mewnol drafft i aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio ar ôl iddynt gael eu cwblhau er mwyn rhoi amser ychwanegol i'w hadolygu a'u hystyried cyn eu trafod yng nghyfarfodydd y cyd-bwyllgor.

Hefyd, yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod blaenorol, dywedodd JM fod cwmpasau drafft ar gyfer archwiliadau cydweithredol sydd ar ddod yn cael eu rhannu â chynrychiolwyr TGCh yn gynnar. Cadarnhaodd y byddai sylwadau gan FS am yr Archwiliad Diogelu Data cydweithredol yn cael eu hymgorffori yn y cwmpas terfynol, ac y byddai'r un dull yn cael ei gymryd ar gyfer yr Archwiliad Gwrth-dwyll sydd ar ddod i sicrhau bod mewnbwn rhanddeiliaid yn cael ei adlewyrchu cyn i'r gwaith maes ddechrau.

c) Perfformiad archwilio mewnol ac argymhellion agored

Cafodd y pwyllgor gyflwyniad gan MR ynghylch perfformiad archwilio mewnol, cyflawni'r cynllun archwilio, a rheoli argymhellion archwilio heb eu gwblhau.

Mewn perthynas â Chynllun Archwilio Mewnol 2025/26, cadarnhaodd MR fod cyfanswm o 20 archwiliad wedi'u cwblhau, yn cynnwys 11 â sicrwydd sylweddol, saith â sicrwydd rhesymol, a dau â sicrwydd cyfyngedig.

Ystyriodd y pwyllgor hefyd gynnydd wrth weithredu argymhellion archwilio. Adroddodd MR fod nifer yr argymhellion agored wedi lleihau o 55 i 51. Roedd 20 o argymhellion wedi'u cau ers y cyfnod adrodd blaenorol, tra oedd 16 o argymhellion newydd wedi'u hychwanegu. Nododd yr aelodau fod mwy o oruchwyliaeth yn cael ei chymhwyso trwy ymgysylltu'n rheolaidd â deiliaid cyllidebau a thrwy graffu yn y Bwrdd Archwilio a



Sicrwydd Strategol, lle roedd ceisiadau am estyniadau o ran eu gweithredu wedi'u hystyried a'u herio pan fo'n briodol.

Roedd gwaith pellach ar y gweill gydag arweinwyr rheoli gwybodaeth a TGCh i adolygu argymhellion hŷn sydd heb eu gweithredu a chadarnhau cynlluniau gweithredu ac amserlenni clir. Nododd yr aelodau fod y crynodiad mwyaf o argymhellion agored yn ymwneud â phobl a datblygu sefydliadol, TGCh, diogelu data, storio data, a seiberddiogelwch, gan adlewyrchu cymhlethdod a natur hirdymor y meysydd hyn.

Cadarnhaodd MR mai dim ond un argymhelliad Blaenoriaeth 1 oedd yn parhau i fod ar agor, yn ymwneud ag archwiliad Diogelwch Arian Parod a Atafaelwyd ac Enillion Troseddau, a bod cynnydd yn parhau i gael ei fonitro trwy drefniadau llywodraethu sefydledig.

Croesawodd KC y fformat adrodd diwygiedig a diolchodd i MR am gyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd glir a hygyrch.

Croesawodd DM hefyd y dadansoddiad ychwanegol a ddarparwyd ac awgrymodd y dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys rhagor o fanylion am argymhellion a oedd yn parhau heb eu gweithredu dros 12 mis ar ôl eu dyddiad gweithredu gwreiddiol. Nododd, pan oedd argymhellion wedi aros ar agor am gyfnod sylweddol, y byddai'n ddefnyddiol deall amserlenni gweithredu diwygiedig ac a oedd yr argymhellion gwreiddiol yn parhau i fod yn briodol o ystyried newidiadau sefydliadol a risgiau sy'n esblygu.

Cytunodd MR i ddarparu manylion ychwanegol am argymhellion hŷn sydd heb eu gweithredu a dywedodd fod gwaith eisoes ar y gweill gyda chydweithwyr ym meysydd rheoli gwybodaeth a TGCh i adolygu'r argymhellion hyn, asesu eu perthnasedd parhaus, a chadarnhau amserlenni wedi'u diweddarau ar gyfer eu cwblhau.

Cefnogodd KC y dull hwn, gan nodi y dylid adolygu argymhellion hirdymor i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gymesur â blaenoriaethau presennol y sefydliad.

6. Ystyried Adroddiad Alldro Rheoli Trysorlys 2025/2026

Cafodd y pwyllgor yr Adroddiad Alldro Rheoli Trysorlys ar gyfer 2025/26 a'r wybodaeth ddiweddaraf gan ND ar weithgareddau rheoli trysorlys yn ystod y flwyddyn ariannol.

Esboniodd ND fod yr adroddiad yn crynhoi perfformiad rheoli trysorlys ac yn amlinellu'r cyd-destun economaidd ehangach y gwnaed penderfyniadau benthyca a buddsoddi ynddo. Nododd yr aelodau anwadalrwydd parhaus y marchnadoedd ariannol a pharhad cyfraddau llog cymharol uchel, a oedd yn parhau i wneud benthyca dros yr hirdymor yn llai apelgar. O ganlyniad, roedd yr heddlu wedi cynnal ei strategaeth o ddibynnu ar drefniadau benthyca tymor byr wrth fonitro symudiadau cyfraddau llog.

Nododd yr aelodau fod y sefyllfa fenthyca ar ddiwedd mis Mawrth 2026 ychydig dros £25 miliwn, gan aros o fewn y terfynau cymeradwy ac yn unol â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Hysbyswyd y pwyllgor fod balansau arian parod dros ben yn parhau i gael eu rheoli'n ddoeth, a bod penderfyniadau ynghylch buddsoddi yn blaenoriaethu diogelwch a hylifedd.

Adroddodd ND fod adenillion buddsoddi wedi parhau i fod yn gryf yn ystod y flwyddyn, a bod adenillion ychydig dros 4% ar gyfartaledd. Roedd incwm buddsoddi yn fwy na'r disgwyliadau o ran y gyllideb, gan gynhyrchu dros £1 miliwn o'i gymharu â rhagolwg o tua £500,000, gan adlewyrchu'r amgylchedd cyfraddau llog ffafriol.

Croesawodd KC yr adroddiad a thynnodd sylw at y llithriad parhaus o fewn y rhaglen gyfalaf, gan nodi bod hyn yn parhau i fod yn broblem sy'n codi dro ar ôl tro ac wedi cyfrannu at ofynion benthyca is nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

Mewn ymateb, cydnabu ND y bu llithriad o ran y rhaglen gyfalaf yn ystod 2025/26 ond nododd y bu llawer mwy o waith craffu o ran datblygu a monitro rhaglen gyfalaf y flwyddyn gyfredol. Hysbyswyd yr aelodau fod y rhan fwyaf o brosiectau naill ai wedi cychwyn neu bron â'u cwblhau, a dim ond un prosiect sy'n cael ei ystyried fel un sydd mewn perygl o lithriad pellach ar hyn o bryd. Roedd trefniadau monitro parhaus ar waith i sicrhau bod disgwyliadau cyflawni yn parhau i fod yn realistig.

7. Ymholiadau archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant

Cafodd y pwyllgor y llythyr ymchwiliad archwilio blynyddol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant gan Archwilio Cymru. Cadarnhaodd JB fod hwn yn ofyniad blynyddol safonol a gyhoeddir i bob corff a archwilir ac yn rhan o broses archwilio Archwilio Cymru, a bod ymatebion yn cael eu hystyried fel rhan o'u gwaith archwilio.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch datganiadau o fuddiant ar gyfer aelodau annibynnol y Pwyllgor Archwilio. Dywedodd EH, yn dilyn adolygiad o'r cod a chanllawiau gan Archwilio Cymru, nad oedd angen datganiadau o

fuddiant gan aelodau annibynnol y Pwyllgor Archwilio mwyach. Roedd hyn yn cynrychioli newid yn y broses ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac roedd wedi'i wirio'n briodol.

Croesawodd DM y ffaith bod yr ymatebion a ddarparwyd yn y ddogfen o well ansawdd, gan nodi eu bod wedi dod yn fwy ystyrion yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn llai dibynnol ar gynnwys a ddygwyd ymlaen o gyflwyniadau blaenorol. Mynegodd ei werthfawrogiad i EH a'r tîm am y gwaith a wnaed.

Cytunodd yr aelodau, gan gydnabod yr ymdrech sylweddol a oedd ynghlwm wrth baratoi ac adolygu'r ymatebion, a gwnaethant groesawu tystiolaeth o welliannau, gan gynnwys cydymffurfedd cryfach â chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

8. Monitro datblygiad a gweithrediad effeithiol rheoli risg

a. Ystyried cofrestr risg yr heddlu

Rhoddodd LR yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am Gofrestr Risgiau Corfforaethol yr heddlu, gan dynnu sylw at ddau ddatblygiad allweddol ers y cyfarfod blaenorol.

Awgrymodd DM y dylai'r pwyllgor gael sesiwn frifio yn y dyfodol ar ddiwygio'r heddlu, gan gynnwys cynigion yn ymwneud â llywodraethiant ym maes plismona, o ystyried y goblygiadau strategol tymor hwy posibl ar gyfer llywodraethiant sefydliadol a risg.

Cefnogodd yr CHTh y cynnig a nododd, er bod trafodaethau cenedlaethol sylweddol yn parhau, fod ansicrwydd sylweddol o hyd ynghylch trefniadau llywodraethiant yn y dyfodol. Nododd yr aelodau fod aelod o dîm SCHTh wedi'i secondio i'r Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau â'r Swyddfa Gartref, gan roi cipolwg defnyddiol ar yr agenda ddiwygio sy'n dod i'r amlwg.

Dyweddodd ND fod ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau presenoldeb gan aelod o'r tîm diwygio cenedlaethol yn y digwyddiad hyfforddi Cymru gyfan sydd ar ddod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau.

Nododd LR fod camau gweithredu yn ymwneud â diwygio'r heddlu eisoes yn cael eu monitro trwy gynllun gweithredu'r Datganiad



Llywodraethiant Blynnyddol ac y byddent yn parhau i gael eu hadrodd amdanynt trwy'r diweddariadau hynny. Gellid darparu ar gyfer unrhyw ofyniad am adroddiad mwy manwl yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Trafododd y pwyllgor hefyd y risgiau sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial (AI).

Holodd KC a oedd risgiau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial wedi cael eu hystyried yn ffurfiol o fewn fframwaith rheoli risg y sefydliad, gan nodi effeithiau sylweddol o fewn ei sector ei hun o gwynion a gynhyrchwyd gan ddeallusrwydd artiffisial, ceisiadau am wybodaeth, a phwysau adnoddau cysylltiedig.

Dywedodd LR fod AI wedi cael ei drafod yn fewnol a bod y sefydliad wrthi'n cynnal treialon cyfyngedig o gynhyrchion AI cymeradwy. Ystyriwyd yn gynnar lywodraethiant, rheolaethau, a threfniadau cyflwyno yn y dyfodol.

Tynnodd CM sylw at y ffaith bod AI yn cyflwyno cyfleoedd a risgiau. Er bod treialon mewnol wedi dangos buddion, roedd dysgu o broblemau a brofwyd mewn mannau eraill wedi atgyfnerthu'r angen am bamedrau llywodraethiant a defnydd clir. Nododd hefyd enghreifftiau cynyddol o gwynion a gohebiaeth gyfreithiol a gynhyrchwyd gan AI, a oedd yn creu pwysau sefydliadol ychwanegol.

Mynegodd KC bryder nad yw effaith weithredol a sefydliadol gynyddol AI o bosibl wedi'i hadlewyrchu'n ddigonol o fewn y fframwaith risg eto ac awgrymodd fod y mater yn haeddu ystyriaeth bellach.

Cytunodd CM a chynigiodd y dylid adolygu'r mater ymhellach i benderfynu a ddylid adlewyrchu risgiau sy'n gysylltiedig ag AI o fewn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Cadarnhaodd LR y byddai'n archwilio a oedd risgiau sy'n gysylltiedig ag AI eisoes wedi'u nodi ar lefel adrannol, gan gynnwys o fewn cofrestrau risg y Gwasanaethau Cyfreithiol, ac yn ystyried a oedd yn briodol eu huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Cefnogodd CW y dull hwn ac awgrymodd na ddylid trin AI fel un risg yn unig. Nododd fod sawl risg benodol sy'n gysylltiedig ag AI,



gan gynnwys defnydd mewnol, camddefnydd allanol, goblygiadau cyfreithiol, pryderon ynghylch llywodraethiant gwybodaeth, ac effeithiau ar adnoddau, a allai fod angen ystyriaeth a rheolaeth ar wahân.

Cam Gweithredu A 56: Bydd SCHTh yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiwygio'r heddlu i'r pwyllgor yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

Cam Gweithredu A 57: Bydd LR ac CM yn adolygu risgiau sy'n gysylltiedig ag AI ar draws y sefydliad, gan gynnwys ystyried a ddylid adlewyrchu risgiau o fewn cofrestrau adrannol a/neu cofrestrau risgiau corfforaethol.

b. Ystyried Cofrestr Risgiau Corfforaethol SCHTh

Cafodd y pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am Gofrestr Risgiau SCHTh gan CM.

Dywedodd CM nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol i'w hamlygu ers y cyfarfod blaenorol. Nododd yr aelodau y cynigiwyd symud risg y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) o'r gofrestr risgiau i'r gofrestr materion, yn unol â'r dull a fabwysiadwyd gan yr heddlu. Cytunwyd ar y cynnig hwn yn dilyn trafodaethau rhwng y Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau, y Pennaeth Sicrwydd, a chynrychiolwyr yr heddlu.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau pellach gan yr aelodau.

9. Adolygu'r asesiad o risgiau twyll a niwed posibl

a) Cael adroddiadau ynghylch twyll

Nododd yr aelodau yr adroddiad a ddarparwyd ac ni chodwyd unrhyw gwestiynau pellach.

10. Diweddariad o archwiliad Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Fawrhydi

Rhoddodd RJ yr wybodaeth ddiweddaraf am archwiliad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu (PEEL) gan HMICFRS.

Hysbysodd RJ fod y cyfnod casglu tystiolaeth wedi dod i ben ym mis Mehefin 2026 a bod yr heddlu yn aros am yr adroddiad drafft o ran gwirio cywirdeb ffeithiol, a ddisgwylir ym mis Awst. Disgwylir yr adroddiad arolygu terfynol yn yr hydref. Nododd yr aelodau fod gwaith sylweddol wedi'i wneud cyn yr arolygiad, ac aethpwyd i'r afael â 35 o feysydd blaenorol i'w gwella, gan eu cymeradwyo'n fewnol, yn amodol ar gadarnhad terfynol HMICFRS.

Adroddwyd bod adborth cychwynnol HMICFRS yn gadarnhaol ar y cyfan, ac nid oedd unrhyw bethau annisgwyl sylweddol wedi'u nodi. Mae gwaith eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â meysydd a amlygwyd i'w gwella cyn i'r adroddiad terfynol ddod i law.

Croesawodd yr aelodau gadarnhad bod Heddlu Dyfed-Powys wedi cael ei asesu i fod ar Lefel 1 o dan system perfformiad plismona newydd HMICFRS, sy'n golygu nad oes angen monitro uwch nag ymyrraeth ar hyn o bryd.

Nododd y pwyllgor hefyd fod wyth meysydd i'w gwella yn parhau i fod ar agor, gan gynnwys pedwar sy'n aros i gael eu cymeradwyo gan HMICFRS, a phedwar yn deillio o'r arolygiad troseddau difrifol a threfnedig rhanbarthol diweddar.

Gofynnodd DM am eglurhad ynghylch sylwadau HMICFRS am oruchwyliaeth oruchwylol o ddigwyddiadau Gradd 3, ac eglurodd RJ fod y rhain yn ymwneud â digwyddiadau wedi'u hamserlennu nad ydynt yn frys sydd angen goruchwyliaeth fwy cyson a datblygiad amserol.

Croesawodd yr aelodau'r adborth cadarnhaol a gafwyd hyd yma a chydabuon nhw'r gwaith paratoi a gwella sylweddol a wnaed gan yr heddlu.

11. Diweddariadau gan aelodau

Rhoddodd DM yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfodydd y Bwrdd Cyllid Strategol a'r Bwrdd Archwilio a Sicrwydd Strategol yr oedd wedi'u mynychu. Nododd yr aelodau fod yr heddlu ar hyn o bryd yn adrodd bod y gyllideb wedi'i mantoli ar y cyfan, a bod gorwariant sylweddol o ran cyflogau'r heddlu a goramser yn cael ei wrthbwyso gan danwariant o ran cyflogau staff yr heddlu. Tynnodd DM sylw at y trefniadau monitro ariannol cadarn sydd ar waith a'r oruchwyliaeth agos sy'n cael ei harfer gan dimau cyllid yr heddlu ac SCHTh.

Dyweddodd JJ ei bod wedi mynychu cyfarfod y Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol a chadarnhaodd fod yr wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd yn flaenorol o dan yr eitem honno ar yr agenda yn adlewyrchiad cynhwysfawr o'r materion a drafodwyd.

Rhoddodd KC ac CW yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am gyfarfod diweddar gyda'r Tîm Cyllid ynghylch y broses archwilio allanol. Nododd yr aelodau fod y sesiwn wedi rhoi trosolwg defnyddiol o gynnydd archwilio a'r defnydd o'r system Inflow ar gyfer rheoli ac olrhain ceisiadau archwilio. Gwnaeth CW sylwadau cadarnhaol am y system a chroesawodd y gweleddd a ddarparodd o ran cynnydd yn erbyn camau archwilio.

Rhoddodd JB ddiweddariad byr ar yr archwiliad allanol, gan nodi bod gwaith maes yr archwiliad tua hanner ffordd wedi'i gwblhau ac yn mynd rhagddo'n dda, heb unrhyw bryderon sylweddol wedi'u nodi, a bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i darparu mewn modd amserol.

12. Unrhyw fater arall

Cafodd yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau ar gyfer y diwrnod hyfforddi Cymru gyfan sydd i ddod ar gyfer pwyllgorau archwilio, a drefnwyd ar gyfer 9 Medi 2026. Dywedodd ND fod yr agenda yn cael ei chwblhau ac y byddai'n cael ei dosbarthu unwaith y byddai argaeledd siaradwyr wedi'i gadarnhau.



CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU

Rhif y cam gweithredu	Crynodeb o'r cam gweithredu	I'w ddatblygu gan	Cynnydd
A 53	Trefnu cyfarfod ychwanegol o'r pwyllgor ar gyfer mis Ebrill 2027.	SCHTh	Ar y gweill – dyddiadau'n cael eu ceisio.
A 54	Bydd CM yn trafod trefniadau adrodd yn y dyfodol ar gyfer y Bwrdd Archwilio a Sicrwydd Strategol â'r Dirprwy Brif Gwnstabl ac yn sicrhau bod gwelliannau arfaethedig i'r cylch gorchwyl, gan gynnwys adborth Archwilio Cymru, yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen ddiwygiedig.	CM	Ar y gweill – mae adborth wedi'i ddarparu i'r Uned Gwella Gwasanaethau gyda chais i wneud gwelliannau i'r cylch gorchwyl yn unol â thrafodaethau'r Cyd-bwyllgor Archwilio ac adborth blaenorol gan SCHTh.
A 55	Bydd TIAA yn dosbarthu adroddiadau archwilio mewnol drafft i aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio ar ôl iddynt gael eu cwblhau er mwyn rhoi amser ychwanegol i'w hadolygu a'u hystyried cyn eu trafod yng nghyfarfodydd y cyd-bwyllgor.	TIAA	
A 56	Bydd SCHTh yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiwygio'r heddlu i'r pwyllgor yng nghyfarfod mis Rhagfyr.	SCHTh	Ar y gweill – wedi'i drefnu ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ar 14 Rhagfyr.
A 57	Bydd LR ac CM yn adolygu risgiau sy'n gysylltiedig ag AI ar draws y sefydliad, gan gynnwys ystyried a ddylid adlewyrchu risgiau o fewn	LR / CM	Ar y gweill



Heddlu Police
DYFED-POWYS



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

	cofrestrau adrannol a/neu cofrestrau risgiau corfforaethol.		
--	--	--	--